# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

## CLA623 - Gorchymyn Gwasanaethau Tân ac Achub (Fframwaith Cenedlaethol) (Cymru) (Adolygu) 2015

### Gweithdrefn

Negyddol

### Cefndir

Mae adran 21 o Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru lunio Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub, y mae'n rhaid iddo osod blaenoriaethau ac amcanion ar gyfer awdurdodau tân ac achub yng Nghymru. Caiff hefyd ddarparu canllawiau i awdurdodau tân ac achub o ran cyflawni unrhyw un neu ragor o'u swyddogaethau. Rhaid i'r awdurdodau tân ac achub roi sylw i'r fframwaith wrth gyflawni eu swyddogaethau.

Mae erthygl 2 o'r Gorchymyn hwn yn rhoi Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub Cymru 2016 ("y Fframwaith") yn lle Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub Cymru 2012.

### Materion technegol: craffu

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2(vi) mewn perthynas â'r offeryn hwn (gwaith drafftio diffygiol):

Cafodd y Gorchymyn ei wneud ar 23 Tachwedd 2015, ond roedd yn honni ei fod yn rhoi ar waith dogfen nad oedd mewn bodolaeth ar y pryd – y Fframwaith newydd i'w gyhoeddi ar 25 Tachwedd.

### Rhinweddau: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

### Ymateb y Llywodraeth

Mae'r Llywodraeth yn derbyn y pwynt technegol a nodwyd gan Ymgynghorydd Cyfreithiol y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn ei Adroddiad drafft. Cafodd Gorchymyn yn cywiro'r camgymeriad hwn ei wneud ar 8 Rhagfyr 2015 ac fe'i gosodwyd ar 9 Rhagfyr 2015, gan nodi 1 Ionawr 2016 yn ddyddiad dod i rym.

# Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn ac ymateb y Llywodraeth yn ei gyfarfod ar 11 Ionawr 2016 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Cynulliad yn unol â'r pwynt adrodd technegol uchod.